# ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD CYMRU

# BARED BAE CAERDYDD

# PAPUR I GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

## 1. Crynodeb

Lleihau'r perygl o lifogydd i'r eithaf yw prif nod yr Asiantaeth mewn perthynas â Bae Caerdydd. Yn ogystal, mae Bared llwyddiannus yn dibynnu ar amgylchedd o ansawdd da.

Mae systemau wrth gefn yn rhan hanfodol o Fared sy'n cael ei weithredu'n ddiogel ond nid yw'r systemau hyn yn gweithio'n foddhaol ar hyn o bryd a phe ceid llifogydd gallent waethygu'r sefyllfa.

Yr Asiantaeth yw'r corff cyhoeddus wedi'i noddi gan y Cynulliad sydd â chyfrifoldeb statudol penodol dros amddiffynfeydd rhag llifogydd a physgodfeydd, ymhlith pethau eraill. Mae ganddi rôl reoleiddio allweddol o dan Ddeddf Bared Bae Caerdydd 1993 i sicrhau bod y Bared yn gweithio yn ôl y safon gywir.

## 2. Yr Amserlen a'r Prosesau Cysylltiedig ar gyfer Dirwyn CDBC i Ben

Yn y cyd-destun hwn mae'r Asiantaeth wedi ymdrechu i sicrhau bod pob ochr yn ymwybodol o:

a) yr effeithiau y gall ystyriaethau amgylcheddol eu cael ar faterion a allai fel arall gael eu gweld yn nhermau masnachol yn unig; a
b) y diffyg cynnydd a wnaed gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ddatrys problemau amgylcheddol a allai fygwth y rhaglen waith dynn i gwblhau'r prosiect yn unol â'r cynllun o fewn oes y Gorfforaeth.

## 3. Anawsterau Diweddar â Gweithredu'r Bared

3.1 <u>Trefn y Digwyddiadau</u>
Ar 3 Tachwedd 1999, rhoddodd yr Asiantaeth Gymeradwyaeth Dros Dro ar gyfer gweithredu'r Bared.

Deuai'r gymeradwyaeth i ben ar 17 Tachwedd 1999. Pwysleisiodd yr Asiantaeth y byddai gofyn i CDBC wagio'r Bae pe bai profion pellach yn anfoddhaol.

Cytunodd CDBC â'r Asiantaeth y byddai profion pellach yn rhoi sicrwydd y byddai'r Bared yn

gweithredu fel y bwriadwyd iddo.

Ar 11 Tachwedd 1999 mynegodd yr Asiantaeth bryder eto ynghylch gweithrediad y Bared a methiant CDBC i ddarparu'r wybodaeth a gytunwyd.

Unwaith eto, rhybuddiodd yr Asiantaeth y byddai angen gwagio'r Bae pe na ellid datrys y problemau gyda llifddor 5 yn unol â'r safonau llifogydd dyluniol. Roedd cynigion manwl i ddatrys y problemau hyn wedi cael eu trosglwyddo i CDBC erbyn 15 Tachwedd 1999. Cytunodd yr Asiantaeth i estyn ei chymeradwyaeth dros dro hyd 1 Rhagfyr 1999.

Ar 24 Tachwedd 1999 rhoddwyd prawf ar y system drydanol wrth gefn a darganfuwyd problemau difrifol a oedd yn effeithio ar weithrediad y prif systemau a'r systemau wrth gefn. Gallai'r problemau hyn fod yn ddifrifol pe ceid llifogydd.

Ar 30 Tachwedd 1999 cyflwynodd yr Asiantaeth ei phryderon eto ynghylch gweithrediad y Bared. Dywedodd yr Asiantaeth fod y problemau hyn mor ddifrifol fel na fyddai'n estyn y gymeradwyaeth dros dro ar gyfer llenwi'r llyn y tu hwnt i 1 Rhagfyr a gofynnodd i CDBC gyflwyno cynigion ar unwaith ar gyfer gwagio'r Bae neu ateb y broblem mewn ffordd arall.

Gwrthododd CDBC wagio'r Bae wedi i'r gymeradwyaeth dros dro ddod i ben. Ar 2 Rhagfyr 1999 cynhaliwyd cyfarfod argyfwng rhwng yr Asiantaeth, CDBC, yr ymgynghorwyr a'r contractwyr i geisio ffordd ymlaen. Mewn ail gyfarfod, ar 2 Rhagfyr 1999, cytunodd y Gorfforaeth i adael i'r Bae wagio am ddau lanw yn olynol, i gyflwyno cynigion diwygiedig ar gyfer datrys yr anawsterau technegol gyda'r Bared, ac i gyflwyno cynigion pellach ar gyfer gweithredu'r Bared yn y cyfamser.

Ni chafodd y Bae ei wagio ar 2 Rhagfyr. Parhaodd CDBC i weithredu'r Bared yn anghyfreithlon gan wybod bod yr Asiantaeth yn ystyried nad oedd ei weithredu yn ei gyflwr presennol yn lleihau'r pergyl o lifogydd i'r eithaf yn unol â chynllun y Bared. Roedd yr Asiantaeth erbyn hyn o'r farn nad oedd ganddi unrhyw ddewis ond i gyhoeddi Cyfarwyddyd fel y gwnaeth.

3.2 <u>Llifddorau</u>
Bu hanes hir o broblemau gyda'r llifddorau.

Mae'r problemau presennol gyda gweithrediad awtomatig y llifddorau fel a ganlyn:

Nid yw'r llifddorau yn ymateb fel y dylent i'r meddalwedd rheolaeth awtomatig, gan gynnwys amseriadau a pharamedrau rheoli. Gellir addasu'r paramedrau a dylai fod modd mireinio'r rhain i sicrhau gweithrediad sefydlog.

Gan fod y synwyryddion sy'n cofnodi lefel y Bae yn agos at y llifddorau, effeithir arnynt gan amodau hydrawlig lleol y mannau hyn. Mae'n bosibl mai dyma'r prif reswm pam mae'r holl ddorau yn agor ac yn cau mewn cylch yn hytrach na than reolaeth. Os yw hyn yn wir, bydd angen newid y cynllun ac ail-

leoli’r synwyryddion lle gallant gofnodi gwir lefel y Bae.

Mae gan lifddor 5, sef yr un a ddefnyddir amlaf, broblemau ychwanegol.

3.3 Y Llwybr Pysgod
Hyd yn hyn mae’r Gorfforaeth wedi methu â gweithredu’r llwybr pysgod yn foddhaol. Mae’r llwybr yn rhan hanfodol o’r Bared gan mai dyma’r unig ffordd y gall eogiaid a sewin ddod i mewn i Afon Taf ac Afon Elái. Mae mynediad rhwydd a didrafferth i’r afonydd yn hollbwysig ond mae’n dibynnu ar sicrhau bod y llwybr pysgod yn gweithio’n effeithiol. Mae gweithrediad cywir y llwybr pysgod yn ofynnol o dan y gyfraith ac yn hanfodol i ddenu pysgod i’r llwybr a’u galluogi i ddod i mewn ac esgyn i’r Bae. Ers llenwi’r Bae ar 4 Tachwedd 1999, mae’r Asiantaeth yn amcangyfrif y bu’r llwybr yn aneffeithiol neu’n anweithredol am 80% o’r amser.

## 4. **Gweithgareddau a Datblygiadau yn y Bae yn y Dyfodol**

4.1 Gweithrediad y Bared
Yn ystod y cyfnod hyd at 14 Ionawr 2000, bydd y Bared yn cael ei weithredu â llaw a bydd lefel y dë r yn y Bae yn cael ei gostwng i 4.0m.

O ganlyniad i ohirio llenwi’r Bae â dë r croyw, caiff y Bared ei weithredu fel llyn hallt, y gadewir iddo wagio’n rheolaidd i gynnal y safonau ansawdd dë r. Bydd safon ansawdd dë r y Bae yn y dyfodol yn dibynnu ar gynnwys gwelliannau, ar yr adeg briodol, yng Nghynlluniau Rheoli Asedion Dë r Cymru Welsh Water.

4.2 Defnydd o’r Bae
Bydd y cyfrifoldeb dros ddatblygu a gweithredu’r strategaeth defnydd dë r yn cael ei drosglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Bydd yr Asiantaeth yn falch o gyfrannu ac mae’n edrych ymlaen at dderbyn cynigion diwygiedig ar gyfer is-ddeddfau a fydd yn hwyluso rheoli gweithgareddau yn ardal y Bae.

4.3 Cynllunio
Bydd yr Asiantaeth yn gwneud ei gorau i sicrhau nad yw datblygiadau o gwmpas y Bae yn amharu ar allu’r Bae i storio llifddë r. Bydd Cyngor Sir Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ill dau yn gyfrifol am sicrhau nad effeithir ar allu’r Bae i storio llifddë r.

## 5. **Casgliadau**

Mae’r Asiantaeth yn fodlon ei bod wedi cyrraedd cytundeb cadarn â CDBC ar ffordd synhwyrol ymlaen heb gyfaddawdu yn ei rôl fel rheoleiddiwr. Bydd rheoli’r Bae yn llwyddiannus yn dibynnu ar feithrin perthynas weithiol dda rhwng Cyngor Sir Caerdydd a’r Asiantaeth ar bob lefel, gan adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd hyd yn hyn.

Mae’r Asiantaeth wedi datblygu cryn arbenigedd mewn perthynas â’r Bared a gall helpu i sicrhau bod

problemau technegol yn cael eu datrys yn llwyddiannus.

13 Rhagfyr 1999